

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

8/1/2015

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothi Evans, Dilwyn Jones, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Islwyn Pritchard-Jones, Eluned Jones

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes gan ddymuno blwyddyn newydd dda, iechyd a phob hapusrwydd i bawb. Ymatebodd Dilwyn Jones ar ran aelodau Cyngor Tref Y Bala gan ddymuno blwyddyn newydd dda i'r Maer. Estynnwyd croeso arbennig i Lona Davenport ac Iwan Roberts swyddogion cefnogi cymuned yr Heddlu.
2. Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i roi cyflwyniadau.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 11, 2014
5. Rhoddodd y Clerc adroddiad ar ddatblygiadau o gyfarfodydd blaenorol:
 - i. **Goleuadau yn fflachio i ddangos cyflymder:** Er bod swyddogion Cyngor Gwynedd yn cefnogi dymuniad Cyngor Tref Y Bala i brynu'r arwyddion hyn, nid oeddent yn barod i'w symud o safle i safle. Gofynnwyd i'r Clerc holi ymhellach am ddiogelwch goleuadau symudol rhag fandaliaeth, ac am rhwyddineb eu symud o le i le. Derbyniwyd y cyngor gan Swyddogion y byddai angen caniatâd Llywodraeth Cymru cyn y gellid gosod y goleuadau hyn ar yr A494.
 - ii. **Goleuadau Nadolig wrth y cerflun:** profodd yn anodd iawn cael cyflenwad trydan ar gyfer gosod goleuadau ar y coed wrth gerflun Tom Ellis eleni. Cytunwyd i geisio sicrhau fod y golau yn cael eu gosod yno ar gyfer y Nadolig nesaf. Cytunodd Swyddogion yr Heddlu na fyddai gosod goleuadau ar y goeden wrth ymyl y man croesi yn amharu ar yrwyr. Gobeithir gosod goleuadau ar y goeden hon y flwyddyn nesaf hefyd ac ar ambell goeden arall os gellir cael trydan. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb oedd wedi gweithio mor ddygn i sicrhau fod y goleuadau mewn lle ac i rai busnesau am gyflenwi trydan pan nad oedd polyn lamp yn gyfleus. Y farn gyffredinol oedd bod y Stryd Fawr yn edrych yn hardd iawn dros gyfnod yr Ŵyl a gobeithiwyd y bu hyn yn fodd o ddenu busnes i'r dref. Manteisiodd busnesau'r Stryd Fawr yn helaeth ar gefnogaeth a nawdd y Cyngor Tref i osod 39 o goed bychain yn y stryd.
 - iii. **Cystadleuaeth Ffenest Siop a materion Noson Siopa Hwyr** -Llongyfarchwyd Siop Ria ar ennill a diolchwyd i bedwar o ddisgyblion Chweched Dosbarth Ysgol y Berwyn am feirniadu'r ffenestri. Penderfynodd Siop Ria gyfrannu'r wobwr i Bwyllgor Parc Chwarae heol y Castell. Cytunodd Carol Rowlands i gyflwyno sylwadau pellach am y noson siopa hwyr i Grŵp Busnes y Bala.
 - iv. **Lloches bws** - Er llawer o ymdrechion a gohebu gyda Swyddogion y Llywodraeth a Gwynedd, mae wedi profi yn amhosib hyd yn hyn i ganfod safle derbynol i osod

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)1

lloches ar gyfer pobl sydd yn aros am fws i gyfeiriad y dwyrain. Mae hyn yn bryder mawr i'r Cyngor Tref gan fod yr angen am loches yn amlwg. Gofynwyd i'r Cyngorydd Sir a'r Clerc i ddal ati i geisio cael cytundeb ar y mater gan y gwahanol Swyddogion.

- v. **Stondinau beic** – Cytunwyd i ariannu'r stondinau beic a chytunodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i weithredu ar y mater.
- vi. **Rhwystrau ar y pafin** – mae rhwystrau ar y pafin mewn sawl lleoliad yn y dref ac mae'r mater yn derbyn sylw gan Swyddogion Gwynedd.
- vii. **Llwybr y Sgotwyr** - mae'r mater hwn o dan drafodaeth ar hyn o bryd rhwng y Cyngorydd Dilwyn Morgan a Swyddogion Cynfor Gwynedd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd
- viii. **Cyfarfod arbennig gyda'r Heddlu a Chartrefi Cymunedol Gwynedd** – bydd adroddiad yn ymddangos yn y Wasg. Roedd Swyddogion yr Heddlu yn falch iawn o adrodd na fu fawr ddim trafferthion yn y dre dros gyfnod yr Ŵyl.
- ix. **Baner** - cytunwyd i sicrhau na fydd y pris yn uwch cyn archebu baner gydag arfbais y Cyngor arno.
- x. **Cŵn yn baeddu** - adroddodd cynrychiolwyr yr heddlu i sawl perchennog dderbyn dirwy sylweddol yn ddiweddar am adael i'w cŵn faeddu mewn man cyhoeddus. Rhoddwyd dirwy hefyd i berson am ollwng sbwriel ar lawr. Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod posibilrwydd y trefnir cyfarfod cyhoeddus a all arwain at unigolion yn y gymuned yn cael yr hawl i ddirwyo perchnogion sydd ddim yn codi baw eu cŵn.

6. **Materion y Cyngorydd Sir:** Adroddodd fod Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn delio gyda phroblem cerbydau wedi eu parcio yng Nghysgod y Coleg. Cytunodd i holi am lanhau'r llwybr at Lanycil.

7. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:**

- i. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i fynegi pryder am yr oedi i'r rhaglen uwchraddio cartrefi yng Nghysgod y Coleg.
- ii. Cytunodd Y Maer i anfon cyfarchion y flwyddyn newydd at Faer Milo trwy law Adrian Murray.
- iii. Llongyfarchwyd y Pwyllgor am sicrhau grant sylweddol i barc chwarae Heol y Castell.

8. **Materion Cynllunio**

- i. Cymeradwywyd Cais NP5/53/57A, sef codi estyniad cefn a ffenestri to ar y drychiadau gorllewinol a dwyreiniol yn Garreg Wen, Heol Arenig
- ii. Derbyniwyd cais am wybodaeth o'r defnydd a fu o 53 Stryd Fawr yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Roedd Cyngorwyr yn gallu cadarnhau i'r adeilad hwn gael ei ddefnyddio fel preswylfa ers blynnyddoedd lawr ac mae Fronhaul oedd ei enw.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i osod dysgl ar orsaf telegyfathrebu yn Uned 17, Ystâd Ddiwydiannol Y Bala.

9. **Materion Cyllid**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Derbyniwyd argymhelliad yr is-bwyllgor Cyllid parthed Cyllideb 2015-16.
- iii. Derbyniwyd argymhelliad yr is-bwyllgor i gadw lefel y Praesept yr un fath a llynedd. Hwn ydyw'r seithfed flynedd i'r Praesept aros heb ei godi.
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

10. Gohebiaeth

- i. Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am waharddiad trafnidiaeth dros dro yn Heol Arennig a ddaw i rym 12/1/15.
 - ii. Derbyniwyd cais am gymorth ariannol ond cytunwyd mai ym mis Chwefror y dylid trafod ceisiadau.
 - iii. Derbyniwyd adroddiad blynyddol PEG.
 - iv. Derbyniwyd adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar bwysigrwydd coed mewn trefi.
 - v. Gofynwyd i'r Clerc ymateb i gais CIC am sylwadau ar faterion cludiant i wasanaethau iechyd.
 - vi. Nodwyd neges oddi wrth y Grŵp Twristiaeth parthed newid swyddogion o fewn y grŵp.
11. **Asedau'r Cyngor** – gwneir arolwg pellach yn y Gwanwyn.
12. **Partneriaeth Penllyn:** nid oedd llwybrau eraill ar hyn o bryd sydd angen eu hychwanegu at y Cytundeb presennol.
13. **Dalier sylw:** Bydd cyfarfod arbennig o Gyngor Tref Y Bala ar Chwefror 19 i ddyrannu grantiau i sefydliadau cymunedol mae eu haelodaeth a maes gweithgaredd o fudd i drigolion Y Bala. Mae ffurflen ar gyfer gwneud cais am gefnogaeth ariannol ar gael ar y We (cynghoraupenllyncouncils.co.uk) Disgwylir i geisiadau gyrraedd Y Clerc, Canolfan Henblas, Y Bala erbyn 5/2/15 os gwelwch yn dda, gyda chopi o gyfrifon yr ymgeiswyr, ac amlinelliad o bwrpas y grant a sut y gwariwyd unrhyw grant a ddyrannwyd llynedd.